

ECAD7003 - Rhan B

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd yn ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth (2,500 o eiriau).

Rhagarweiniad

Mae adroddiad Canllawiau gwella ysgolion (Llywodraeth Cymru [LIC], 2021) yn gosod safbwynt plentyn-ganolog LIC sy'n ystyried diben gwella ysgolion fel modd o roi'r 'profiadau a'r deilliannau dysgu gorau i ddysgwyr' (t.2). Fel nodir yn ganllawiau *Cynlluniau datblygu ysgolion* (LIC, 2014) mae dyletswydd ar ysgolion i gyhoeddi Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) – 'sef cynllun strategol ar gyfer gwelliant'. Mae'r cynllun yma'n nodi prif flaenoriaethau mae ysgol am ffocysu arno, er mwyn gwella profiadau a chanlyniadau ei dysgwyr (t.2).

Bydd yr aseiniad yma'n adfyfyrio ar un o flaenoriaethau *Ysgol X* – sef, i ddatblygu sgiliau llafar Cymraeg ei ddisgyblion. Dewisais i adfyfyrio ar y flaenoriaeth yma, gan ei bod yn ganolog i'r 'Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad - Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r *Cwricwlwm i Gymru* (LIC, 2024a). Mae datblygu sgiliau Cymraeg safonol yn hanfodol i ddysgu disgyblion ymhob ysgol gynradd Cymraeg – yn enwedig wrth ystyried targedau uchelgeisiol adroddiad *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (LIC, 2017). Mae adfyfyrio'n feirniadol ar gamau gweithredu *Ysgol X*, wedi llywio syniadau i ysgogi gwelliannau yn ymarfer personol y dyfodol – fel atgyfnerthiad i ganllawiau'r *Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth* (LIC, 2018) sy'n nodi pwysigrwydd adfyfyrio i hybu twf proffesiynol ymarferwyr addysgol.

-

Gan fod yr adroddiad yma yn gwerthuso CDY penodol, rhaid hysbysu bo'r gwaith yn gytûn a chanllawiau BERA (2018). Mae gan gyfranwyr, yr ysgol a hyfforddwyr yr hawl i breifatrwydd ac anhysbysrwydd trwy gydol yr aseiniad. Mae'r CDY dan sylw yn dod o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ne Cymru. Yn ôl adroddiad diweddaraf Estyn (2019) roedd gan yr ysgol 425 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed. Dros gyfnod o dair blwyddyn, roedd tua 11% o'r disgyblion wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (yn is na'r canran cenedlaethol o 18%). Mae tua chwarter o'r disgyblion yn dod o gartrefi sy'n siarad Cymraeg, a dim ond lleiafrif sy'n dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig (t.1).

Adolygiad Llenyddiaeth

Yng nghyd-destun adroddiad *Cynlluniau datblygu ysgolion* (LIC, 2014) diffinnir CDY megis cynllun strategol sy'n amlinellu'r camau i gymryd i wella canlyniadau dysgwyr. Trwy brosesau hunanwerthuso a systemau dadansoddi data, caiff blaenoriaethau ysgol ei osod gyda chytundeb corff llywodraethu. Mae'r canllawiau yma, y gosodwyd gan LIC (2014) yn rhan ganolig i geisio cyflawni amcanion addysgol y wlad – i wella ansawdd a chanlyniadau addysg yng Nghymru.

Un o'r egwyddorion sy'n ganolig i ddatblygiadau'r CDY yng Nghymru yw'r pwyslais ar hunanwerthusiad ysgolion (ibid). Atega Chapman & Sammons (2013) bo'r prosesau yma yn medru amlygu ar gryfderau a gwendidau ysgolion, er mwyn arwain ymdrechion at gynnal gwelliannau. Dylai'r darganfyddiadau yma cael eu cydlynu gyda blaenoriaethau cenedlaethol – megis y Pedwar Diben (Donaldson, 2015) i lywio strategaeth ysgol sbesifig sy'n ymateb i egwyddorion addysgol y wlad a'r *Cwricwlwm i Gymru* (LIC, 2024b). Trwy gyflwyniad *Yr adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella* (LIC, 2021) caiff ysgolion eu grymuso fel cyrff sy'n ymreolaethol dros werthusiadau a gwelliannau eu hunain. Cydlynir gyda syniadau Kyriakides & Campbell (2004) sy'n awgrymu bod newidiadau ystyrlon *ond* yn digwydd mewn ysgolion, pan mae ymarferwyr gyda theimladau o berchnogaeth dros y broses o newid. Mae *atebolrwydd* ysgolion yn amlinellid clir yng nghanllawiau LIC (2021) sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ysgolion am ddatblygiad eu hunain.

Serch hyn, dadleua Leduc & Bouffard (2017) taw un o anfantaision system hunanwerthuso ysgolion, yw'r potensial am dueddiad neu oddrychedd yn ganfyddiadau. O safbwynt seicolegol, mae modelau cymhelliant megis theorïau Bandura (2002) a Deci & Ryan (2013) yn awgrymu bod anghenion anochel ar fodau dynol i deimlo'n gymwys yn eu hamgylchedd a'u gweithle. Yng nghyd-destun hunanasesu ysgolion, gallai ymarferwyr cyflwyno hunanasesiadau sy'n anwybyddu diffygion amlwg, yn gwbl anfwriadol.

I sicrhau tryloywder, mae fframwaith LIC (2024c) yn amlinellu pwysigrwydd defnyddio data wrth gynllunio CDY. Ysgrifenna Hayes & Robnolt (2010) bod data yn medru cynnig tystiolaeth a mewnwleidiadau gwrthrychol o'r ardaloedd academiaidd sydd angen targedu. Er, rhybuddia Gipps & Stobart (2009) bod problemau anochel yn sgil dibynadwyedd a chywirdeb canlyniadau asesu ysgolion. Mae data meintiol, er yn werthfawr i hunanasesu'n oddrychol – yn gallu diystyrrid mewnwleidiad mwy eang i gyd-destun ysgol. Dylid osgoi gorddibynnu ar ddata, i gynllunio CDY sy'n ystyried sefydliad yn holistaidd.

I ategu at ystyriaeth holistaidd, un o'r prif theorïau sy'n llywio canllawiau'r CDY (LIC, 2021) yw cynllunio cydweithredol ac agored - sy'n cynnwys yr ysgol, staff a rhanddeiliaid allanol. Atega

Odhambo & Hill (2012) bod casglu barn amrywiol yn sicrhau ystyriaeth gynhwysol yn CDY – sy'n ystyried anghenion holistaidd ysgol. Fel ysgrifenna LIC (2021) dylai creu a gweithredu CDY, cynnwys ymdrech gyfunol rhwng partneriaid a rhanddeiliaid - sy'n rhannu'r cyfrifoldeb. Atega theori perchnogaeth Kyriakides & Campbell (2004) bod cynnal cyfranogiad hyfforddwyr/rhanddeiliaid wrth lunio cynllun gwella ysgolion yn ysgogi'u cymhelliant i wthio newidiadau positif.

Serch hyn, dadleua Guskey (2007) bod ceisio cynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid gwahanol, yn gallu arwain at anghytundebau a allai rwystro cydlynid a threfn CDY. Yn fwy eang, nid yw adroddiad CDY ond yn atebol i rhanddeiliaid, ond dylai CDY ateb i flaenoriaethau addysgol y wlad (LIC, 2021). Mae *Ysgol X*, trwy flaenoriaethu datblygu sgiliau llafar disgyblion, yn cefnogi ymrwymiad LIC (2024b) i ddatblygu unigolion sy'n gymwys yn eu sgiliau llafar. Mae *Ysgol X* trwy bwysleisio sgiliau llafaredd yn y Gymraeg – yn ymateb i farn rhanddeiliaid ar anghenion disgyblion yr ysgol – ond hefyd yn gytûn â dibenion eangfrydig y *Cwricwlwm i Gymru* (2024c). Caiff y rhain eu llywio gan syniadau mawr – megis canlyniadau PISA isel Cymru, a lywiodd syniadau *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015).

Er bod blaenoriaethau CDY wedi'i chynllunio yn gyd-destun blaenoriaethau'r wlad – mae ysgol gyda'r asiantaeth i gynllunio'r strategaethau i geisio gwella. Mae *Ysgol X* yn defnyddio ymchwil *The Oracy Benchmarks* (Llais 21, 2019) fel fframwaith i lywio'r strategaethau i wella sgiliau llafar. Trwy ymateb i sgiliau llafar Cymraeg isel ei disgyblion – mae *Ysgol X* yn cyfrannu'r gyfunol at amcanion cyffredinol i wella ansawdd addysg yng Nghymru (LIC, 2021).

Gofynnir canllawiau LIC (2014) i ddefnyddio'r CDY fel arf sy'n ddeinamig wrth ymateb i lwyddiannau a gwendidau. Yn *Ysgol X*, dylid adfyfyrio ar lwyddiant Llais 21 (2019) i ddiwygio'i CDY yn gyson. Atega McLeskey & Waldron (2010) bod prosesau adfyfyrio cyson yn galluogi newidiadau, sy'n adlewyrchu ymrwymiad ysgol i gynnal gwelliannau parhaus yn addysg.

Ond fel casgla Edwards *et al.*, (2002) un o'r rhwystrau mwyaf i gynnal newidiadau ystyrlon yw diffyg cyllid. O safbwynt ariannol, mae adroddiad LIC (2014) hefyd yn nodi'r pwyslais ar geisio lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yng Nghymru. Mae LIC (2014) yn cydnabod bod ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau addysgol, gan nodi y dylai CDY ceisio gafael ar yr anghydraddoldebau yma. Mae'r canllawiau yma'n cydnabod pwysigrwydd system addysg gynhwysol, a'r cysyniad o gyfiawnder addysgol – ond fel dywed Gorski (2017) mae'n her i ddadsefydlu anghydraddoldebau addysgol, heb gyllid digonol. Mae hyn yn cynnwys rhwystrau amser a hyfforddiant digonol – sy'n rhwystro newidiadau ystyrlon. Bydd angen ystyried sut mae cyllid yn effeithio ar strategaethau *Ysgol X*, wrth geisio ymateb i'r flaenoriaeth dan sylw.

Datblygu pwynt gweithredu

Fel ymateb i ganllawiau LIC (2021) cynhaliwyd *Ysgol X* proses hunanwerthuso beirniadol, cyn penderfynu blaenoriaethu datblygu sgiliau llafar Cymraeg disgyblion. Dilynodd yr ysgol persbectif Chapman & Sammons (2013) trwy nodi ystod o gryfderau a gwendidau, i roi ffocws ar yr ardaloedd i wella. Dewiswyd i flaenoriaethu datblygu sgiliau llafar trwy gyfuno dadansoddiadau data a syniadau rhanddeiliaid – fel ymateb i'r dull cydweithredol o gynllunio ac er mwyn sicrhau ei atebolrwydd fel ysgol (LIC, 2021).

Yn gytûn a fframwaith LIC (2024c) caiff gymysgedd o ddata meintiol ac ansoddol eu defnyddio er mwyn cynnal tryloywder yn y dystiolaeth a luniwyd y flaenoriaeth. Yn y flwyddyn flaenorol (2022/23) treialwyd cynllun Llais 21 ym Mlynnyddoedd Tri a Phump yr ysgol; dangosodd data meintiol - marciau asesiadau mewnol llafar (cyflwyniadau llafar) - bod cyrhaeddiad/sgiliau llafar Blwyddyn Tri a Phump, ar gyfartaledd, wedi cynyddu ar gyfradd uwch na'r blynnyddoedd dysgu arall. Fel atega Hayes & Robnolt (2010) cynigir y data yma, canlyniadau gwrthrychol i seilio blaenoriaeth y CDY. Serch hyn, mae cyfyngiadau amlwg gydag asesu agored fel hyn. Er bod sgoriau'r cyflwyniadau llafar yn fesuradwy, sy'n helpu'r broses o gymharu data i gynllunio'r flaenoriaeth – mae marcio cyflwyniadau llafar yn oddrychol gyda'r gofyn am farn athrawon. Gellir cwestiynu dibynadwyedd y canlyniadau – a chysondeb y marcio ar draws blynnyddoedd dysgu gwahanol.

Fel ymateb i gyfyngiadau data (fel ysgrifenna Gipps & Stobart, 2009) defnyddia'r ysgol data ansoddol o werthusiadau teithiau dysgu ac arsylwadau, i gyfoethogi'r broses o gasglu tystiolaeth. Yn ymateb i ganllawiau LIC (2021) caiff ystod o rhanddeiliaid eu gwneud yn rhan o'r broses cynllunio, cynnal a gwerthuso. Ysgrifennwyd arweinydd cyswllt Llais 21 ac aelod o'r Adran Gymraeg CSC, astudiaeth achos yn y flwyddyn academaidd flaenorol, a byddant yn rhan o broses gwerthuso'r ysgol eleni. Fel ysgrifenna Odhiambo & Hill (2012) mae casglu barn amryw o rhanddeiliaid yn sicrhau ystyriaeth gynhwysol CDY – sy'n cynnwys a deall anghenion holistaidd ysgol.

Er gellir dadlau bod cynnwys dau unigolyn fel y prif rhanddeiliaid yn y broses gwerthuso, yn cynnig llais rhy cil i'r broses. Mae CDY *Ysgol X*, yn dynodi atebolrwydd mwy eang i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol y wlad (LIC, 2021). Lluniwyd y flaenoriaeth yma, yn oleuni canfyddiadau adroddiad thematig Estyn (2021) – *Caffael yn yr Iaith Gymraeg*, sy'n dynodi'r angen i annog cywirdeb a hyder yn sgiliau siarad a gwrandao Cymraeg plant – yn enwedig yn dilyn y cyfnod clo diweddar. Ymhellach, ysgrifennwyd yn CDY *Ysgol X*, bo'r pwyslais ar ddatblygu hyder yn sgiliau llafar yn ymateb cadarn i ddibenion y *Cwricwlwm i Gymru* (LIC, 2024c) a'r Pedwar Diben (LIC, 2015) sy'n nodi canllawiau i

ddatblygu 'ddinasyddion egwyddorol' sy'n gallu 'trafod materion cyfoes', a 'mynegi syniadau ac emosiynau' yn ddyddiol (t.1).

Yn dilyn y broses gwerthuso, cynlluniwyd MPLI strategol er mwyn mynd i'r afael ar drefnu'r strategaethau i ddatblygu sgiliau llafar disgyblion. Penderfynodd *Ysgol X* i gyflwyno strategaeth gyfredol Llais 21 (2019) ar draws yr holl sefydliad i ymateb i'r flaenoriaeth. Caiff grant o £2000 ei roi i'r ysgol i dalu am flwyddyn o hyfforddiant i ddau aelod o staff. Mae cyrsiau yn rhedeg trwy'r flwyddyn ar gyfer y ddau ymarferwr, sydd yna'n gyfrifol am gyflwyno nosweithiau HMS i drosglwyddo'r wybodaeth i weddill y staff addysgu. Ond gan fod y nosweithiau yma'n para 45 munud yr un, ac nid yw pob aelod o staff yn medru mynychu pob sesiwn – gellir tybio bod bylchau amlwg mewn dealltwriaeth a gwybodaeth aelodau gwahanol o staff addysgu. Fel dywed Gorski (2017) mae'n anodd gweithio ar ddadsefydlu anghydraddoldebau o fewn ysgolion, heb gyllid digonol. Gan nad oes cyllid i fedru hyfforddi pob aelod o staff i'r un safon – gellir tybio bod problemau yn gysondeb, wrth geisio gweithredu cynllun Llais 21 (2019) ar draws dosbarthiadau gwahanol.

I fynd i'r afael ar sicrhau bod pawb yn llwyddo i ymateb i flaenoriaethau'r CDY mae cerrig milltir allweddol/cyfnodau gwerthuso wedi cael ei phenodi ym mis Rhagfyr, Mawrth a Gorffennaf. Mae hyn yn ymateb i McLeskey & Waldron (2010) sy'n dynodi adfyfrio cyson fel arf hanfodol i sicrhau newidiadau parhaus. Gan fod *Ysgol X* wedi nodi bod datblygu sgiliau llafar yn ffocws am gyfnod hirach – yn y CDY 3 blynedd – maen nhw'n ceisio sicrhau bod gwerthuso trylwyr a chyson yn digwydd ar y flaenoriaeth yma, i gynnal newidiadau hirdymor gwerthfawr.

Fel rhan o'r broses gwerthuso mae *Ysgol X*, wedi trefnu teithiau dysgu a gwrando ar draws yr ysgol, er mwyn asesu llwyddiant y strategaethau megis canllawiau'r *Adnodd gwerthuso a gwella* (LIC, 2021). Ond gan fod athrawon gydag amser i baratoi ar gyfer yr arsylwadau yma – gellir dadlau bod y gwersi yma yn dangos argraff annheg o ddefnydd dyddiol strategaethau Llais 21 – o ganlyniad i'r ymdrech ychwanegol gellir athrawon penodi i fewnbynnu'r strategaethau yma o fewn arsylwad. Mae arsylwadau o grwpiau trafod disgyblion yn cael ei gynnal – ond gallai athrawon dewis a dethol y cyfranwyr - sy'n dangos darlun annheg o allu'r holl ddosbarth.

I ymateb i ofynion LIC (2021) i sicrhau ystyriaeth holistaidd o sefydliad, mae *Ysgol X* yn sicrhau bod llais y disgybl yn rhan o'r broses gwerthuso yma. Mae disgyblion yn cael y cyfle i rannu barn am ddefnydd strategaethau Llais 21 (2019) er mwyn ceisio sicrhau ystyriaeth gynhwysol o sut mae'r technegau yn gweithio ar lawr y dosbarth, ac i ennyn barn disgyblion ar gysondeb strategaethau Llais 21 (2019) yn eu dysgu.

Eto, fel ymateb i waith Odihambo & Hill (2012) ar bwysigrwydd casglu barn amrywiol – mae rhanddeiliaid allanol hefyd yn rhan o'r broses gwerthuso. Mae arweinydd cyswllt Llais 21 ac aelod o'r Adran Gymraeg CSC yn arsylwi gwersi ac yn creu adroddiadau sy'n cyfrannu safbwyntiau allanol. Mae hyn yn mynd ar afael ar ddadleuon Leduc & Bouffard (2017) bod systemau hunanwerthuso ysgolion yn gallu dangos tueddiad. Tra hefyd ymateb i fodelau seicolegol Bandura (2002) a Deci & Ryan (2013) sy'n awgrymu bod anghenion unigolion i deimlo'n gymwys yn eu hamgylchedd gwaith, yn gallu arwain at gyflwyno hunanasesiadau sy'n anwybyddu diffygion. Mae llais rhanddeiliaid allanol yn helpu i oresgyn hyn, trwy sicrhau bod barn oddrychol yn cael eu mynegi.

Adfyfyrion a gwerthuso

Yn dilyn gwerthusiad Rhagfyr 2023, adroddir *Ysgol X*, bod holl ymarferwyr y sefydliad wedi dechrau arbrofi gyda strategaethau Llais 21 (2019). Serch hyn, roedd gwahaniaethau eang rhwng dosbarthiadau dysgu yn ddefnydd ac amllder ymarferion. Er enghraifft, ysgrifennwyd bod dosbarthiadau Blwyddyn Pump yn gwneud gweithgareddau Llais 21 wythnosol, tra bod Blwyddyn Tri yn ymarfer cylchau trafod dyddiol.

Wedi mynychu sesiwn HMS ar Lais 21, teimlaf bo'r sesiwn 45 munud yn rhy fyr i ddeall gofynion y cynllun yn llawn. Nid oes amser/cyllid i hyfforddi pawb i'r un safon, sy'n creu anghydraddoldebau yn sgiliau athrawon. Mae hyn yn rhoi profiadau anghyson i ddisgyblion – sy'n atgyfnerthu gwaith Gorski (2017) ar effaith diffyg cyllid ar anghydraddoldebau addysgol.

Yn ddelfrydol, awgrymaf y byddai cynnal mwy o sesiynau HMS yn helpu i roi amser digonol i drosglwyddo gwybodaeth o'r staff sydd wedi derbyn hyfforddiant Llais 21, i ymarferwyr arall. Ond gan fod cyfyngiadau amser a chost yn gallu rhwystro cynnal sesiynau HMS ychwanegol, awgrymaf i'r ysgol i fuddsoddi amser yng nghynllunio adnodd Llais 21 cynhwysfawr, sy'n rhoi canllawiau clir i staff addysgu – i geisio cynnal cysondeb yn ymarfer. Byddai'r adnodd yn bwynt cyfeirio ar gyfer athrawon, i geisio cau'r bwlch rhwng dealltwriaeth hyfforddwyr gwahanol – heb gost fawr i'r sefydliad.

-

Teimlaf hefyd bod diffygion yn sgil casglu tystiolaeth o sgiliau llafar/gwrando disgyblion – mae data yn medru cynorthwyo wrth fesur cynnydd disgyblion a llwyddiant strategaeth (Hayes & Robnolt, 2010). Atgyfnertha LIC (2014) bod angen ystod o ffynonellau data i lywio hunanwerthusiadau safonol.

Gallai asesiadau allanol cynnig tystiolaeth ddibynadwy (Gipps & Stobart, 2009), ond gallai hyn bod yn gost ychwanegol i'r sefydliad. Hoffwn awgrymu felly, i recordio cyflwyniadau llafar disgyblion, er mwyn cynnal sesiynau asesu ar y cyd, rhwng athrawon – i sicrhau cysondeb yn marcio (ibid). Byddai sicrhau marcio cyson, yn codi dibynadwydd y data ar gynnydd disgyblion, er mwyn llywio canfyddiadau'r proses hunanasesu nesaf mewn ffordd deg (LIC, 2014).

Mae nifer o deithiau dysgu yn cael ei wneud i arsylwi staff, ond mae gan hyfforddwyr amser i gynllunio ar eu cyfer. Fel ymarferydd yn y sefydliad (yn ystod fy ymarfer PAP 1) roeddwn wedi gwneud ymdrech ychwanegol i gynnwys mwy o weithgareddau Llais 21 o fewn arsylwadau (i gymharu â'r arfer). Wrth gynnal cylch trafod, ges i'r cyfle i ddewis a dethol disgyblion – dewisais ddisgyblion gallu uwch yn eu sgiliau llafar – sydd ddim yn arddangosiad teg o safon y dosbarth llawn. Awgrymaf y dylai arsylwadau cael ei wneud ar hap, i sicrhau bo'r arsylwadau yn ddelwedd fwy teg o weithgareddau dyddiol y dosbarth. Awgrymaf hefyd, y dylai'r ysgol parhau i ddefnyddio rhanddeiliaid allanol lle yn bosib. Mae defnyddio ymgynghorwyr allanol o'r consortiwm – i orymweld datblygiadau, yn helpu i ddod a chymorth a syniadau allanol, sy'n adeiladu at y broses gydweithredol sy'n cael ei ddynodi yn ganllawiau LIC (2014).

Casgliad

Mae LIC trwy osod canllawiau cadarn ar gynllunio CDY (2014) a'r *Adnodd Gwerthuso a Gwellu* (2021) yn rhoi asiantaeth i ysgolion i fod yn sefydliadau ymreolaethol sy'n gyfrifol am wthio gwelliannau ei hunain. Y brif wers gallaf gymryd yn bersonol, yw pwysigrwydd cyd-weithredu o fewn sefydliad er mwyn cynllunio gwelliannau sy'n ystyried holl anghenion holistaidd ysgol.

O dan gyfyngiadau amser a chyllid, mae'n anodd sicrhau cysondeb rhwng ymarferwyr. Ym mis Medi, byddaf yn sicrhau fy mod yn ymgyswngtu gyda CDY y sefydliad rwy'n rhan ohono. Byddaf yn ceisio adfyfrio'n gyson ac yn cyfathrebu gydag athrawon arall, i sicrhau fy mod yn ymateb i'r CDY a blaenoriaethau'r ysgol mewn ffordd sy'n gyson ag ymarferwyr arall.

Cyfrif Eiriau: 2,705

Rhestr Gyfeirnod:

- Bandura, A. (2002). 'Social foundations of thought and action', Yn: Marks, D. (Golgydd). *The Health Psychology Reader*, Llundain: Routledge, t.23-28.
- British Education Research Association [BERA]. (2018). *Ethical Guidelines for Education Research* (Fourth Edition). London. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018> (Cyrchwyd: 12fed Chwefror, 2024).
- Chapman, C & Sammons, P. (2013). 'School Self-Evaluation for School Improvement: What Works and Why?', *CfBT Education Trust*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://eric.ed.gov/?id=ED546801> (Cyrchwyd: 9fed Chwefror, 2024).
- Deci, E.L. & Ryan, R.M. (2013). *Intrinsic motivation and self-determination in human behavior*, New York: Plenum Press.
- Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> (Cyrchwyd: 10fed Chwefror, 2024).
- Edwards, P., Ezzamel, M., McLean, C. & Robson, K. (2002). 'Budgeting and strategy in schools: The elusive link', *Financial Accountability & Management*, 16(4), t.309-334. DOI: 10.1111/1468-0408.00110
- Estyn. (2019). *Adroddiad ar Ysgol X*. [Rhynggrwyd] (Cyrchwyd: 12fed Chwefror, 2024).
- Estyn. (2021). *Caffael yn yr iaith Gymraeg*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Estyn%20Welsh%20language%20acquisition%20W%284%29.pdf> (Cyrchwyd: 12fed Chwefror, 2024).
- Gipps, C. & Stobart, G. (2009). 'Fairness in assessment', Yn: Wyatt-Smith, C & Cumming, J. (Golygwyr). *Educational assessment in the 21st century: Connecting theory and practice*, Dordrecht: Springer Netherlands, t.105-118.
- Hayes, L. & Robnolt, V. (2006). 'Data-driven professional development: the professional development plan for a reading excellence act school', *Literacy Research and Instruction*, 46(2), t.95-119. DOI: 10.1080/19388070709558463
- Kyriakides, L. & Campbell, R. (2004). 'School self-evaluation and school improvement: A critique of values and procedures', *Studies in educational evaluation*, 30(1), t.23-36. DOI: 10.1016/S0191-491X(04)90002-8

- Leduc, C. & Bouffard, T. (2017). 'The impact of biased self-evaluations of school and social competence on academic and social functioning', *Learning and Individual Differences*, 55, t.193-201. DOI: 10.1016/j.lindif.2017.04.006
- Llais 21. (2019). *The Oracy Benchmarks*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://voice21.org/wp-content/uploads/2020/06/Benchmarks-report-FINAL.pdf> (Cyrchwyd: 10fed Chwefror, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2014). *Cynlluniau datblygu ysgolion*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/cynlluniau-datblygu-ysgolion.pdf> (Cyrchwyd: 7fed Chwefror, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2015). *Pedwar diben y cwricwlwm i Gymru*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/pedwar-diben-y-cwricwlwm-i-gymru.pdf> (Cyrchwyd: 11 Chwefror, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2017). *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. [Rhynggrwyd]. Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> (Cyrchwyd: 31ain Ionawr, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2018). *Cyflwyniad i'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://hwb.gov.wales/api/storage/439cef1d-0428-42b6-82bf-f5153939b3df/cyflwyniad-ir-safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-taflen.pdf> (Cyrchwyd: 7fed Chwefror, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2021). *Yr adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella* [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://hwb.gov.wales/gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/yr-adnodd-cenedlaethol-gwerthuso-a-gwella/> (Cyrchwyd: 9fed Chwefror, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2022). *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/210126-canllawiau-gwella-ysgolion-fframwaith-ar-gyfer-gwerthuso-gwella-atebolrwydd.pdf> (Cyrchwyd: 31ain Ionawr, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2023). *Asesiadau Personol Cenedlaethol ar Gyfer Darllen a Rhifedd: llawlyfr gweinyddu 2023 i 2024* [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol/asesiadau-personol-cenedlaethol-ar-gyfer-darllen-a-rhifedd-llawlyfr-gweinyddu-2023-i-2024/> (Cyrchwyd 11eg Chwefror, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2024a) *Cwricwlwm i Gymru*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru> (Cyrchwyd: 12fed Chwefror, 2024).
- Llywodraeth Cymru (2024b). *Cwricwlwm i Gymru, Maes Dysgu a Phrofiad, Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu*. [Rhynggrwyd] Ar gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>

gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/ (Cyrchwyd: 7fed Chwefror, 2024).

- Llywodraeth Cymru (2024c). *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd*. [Rhyngrwyd] Ar gael: <https://hwb.gov.wales/gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/canllawiau-gwella-ysgolion-fframwaith-ar-gyfer-gwerthuso-gwella-ac-atebolrwydd/> (Cyrchwyd: 9fed Chwefror, 2024).
- McLeskey, J. & Waldron, N. (2002). 'Professional development and inclusive schools: Reflections on effective practice', *The Teacher Educator*, 37(3), t.159-172. DOI: 10.1080/08878730209555291
- Odhiambo, G. & Hii, A. (2012). 'Key stakeholders' perceptions of effective school leadership', *Educational Management Administration & Leadership*, 40(2), t.232-247. DOI: 10.1177/1741143211432412